sir ddinbych Cyngor
denbighshire County Council



# **Cynllun a Pholisi** Hygyrchedd

| Polisi wedi'i gymeradwyo gan | Dyddiad Cymeradwyo | Perchennog polisi | Adolygiad |
|---|---|---|---|
| CSDd JMT | 11/12/2024 | CSDd Addysg | Fel sy'n wir am bob dogfen fewnrwyd, mae'r polisi yma yn cael ei adolygu'n rheolaidd oherwydd newidiadau deddfwriaethol a pholisi |

| Fersiwn | Dyddiad Cymeradwyo | Cymeradwywyd gan | Diwygiad |
|---|---|---|---|
| F1.0 | 11/12/2024 | CSDd JMT | Adolygu'r polisi yn unol â deddfwriaeth a chymeradwyo Templed Addysg newydd CSDd ar gyfer ysgolion. |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

## Datganiad o Weledigaeth

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fe ddylai ysgolion fod â Chynllun Hygyrchedd. Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn disodli'r holl ddeddfwriaeth cydraddoldeb a fodolai, gan gynnwys y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae effaith y gyfraith yr un fath ag yn y gorffennol gan olygu "na all ysgolion wahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn disgyblion o ganlyniad i ryw, hil, anabledd, crefydd neu gred a thueddfryd rhywiol". Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 mae gan unigolyn anabledd os:

(a) Oes ganddo ef neu hi nam corfforol neu meddyliol, a

(b) Bod y nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu ef neu ei gallu hi i wneud gweithgareddau arferol bob dydd.

Caiff y Cynllun Hygyrchedd ei restru fel dogfen statudol yng nghanllawiau'r Adran Addysg ar bolisïau statudol ar gyfer ysgolion. Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu bob 4 blynedd neu pan fo anghenion gweithredol yn gorchymyn hynny ac yn cael ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethu. Fe all y broses adolygu gael ei dirprwyo i bwyllgor o'r Corff Llywodraethu, unigolyn neu'r Pennaeth. Yn Ysgol y Llys bydd y cynllun yn cael ei fonitro gan y Pennaeth/Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac yn cael ei werthuso gan yr Is-bwyllgor Safonau. Bydd y cynllun presennol yn cael ei atodi i'r ddogfen hon.

Yn Ysgol y Llys rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd i ddarparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a chyffrous lle gall yr holl blant ddatblygu brwdfrydedd dros ddysgu gydol oes. Rydym yn credu y dylai plant deimlo'n hapus, diogel a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel eu bod yn datblygu agwedd barchus a gofalgar tuag at ei gilydd a'r amgylchedd, yn lleol ac yn fyd-eang..

## Amcanion:

Mae cynllun hygyrchedd yn gynllun, dros gyfnod penodedig, i:

(a) gynyddu'r graddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

(b) gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol i ddibenion cynyddu'r graddau y gall disgyblion anabl gymryd mantais o addysg a buddiannau, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan yr ysgol

(c) gwella'r ddarpariaeth o ran gwybodaeth i ddisgyblion anabl, sydd ar gael yn hawdd i ddisgyblion nad ydynt yn anabl.

Mae'n rhaid i'r corff cyfrifol gadw ei gynllun hygyrchedd o dan adolygiad yn ystod y cyfnod perthnasol ac, os oes angen, ei ddiwygio.

1) Mae'r Cynllun Hygyrchedd wedi ei ddatblygu a'i lunio yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol, ac ymgynghoriadau gyda disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr yr ysgol. Fe fydd y ddogfen yn cael ei defnyddio i gynghori dogfennau cynllunio a pholisïau eraill yr ysgol ac fe adroddir ar y ddogfen yn nhermau cynnydd a chanlyniadau.

Mae'r Cynllun Hygyrchedd wedi ei strwythuro i gyd-fynd ac i gefnogi Amcanion Cydraddoldeb yr ysgol (y Cynllun Cydraddoldeb Strategol), ac yn yr un modd bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol. Rydym yn deall y bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro gweithgarwch yr ysgol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (ac yn benodol Atodlen 10 yn ymwneud â Hygyrchedd) a bydd yn cynghori ar y cydymffurfedd gyda'r ddyletswydd honno. Bydd y Cynllun Hygyrchedd yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol. Bydd y Cynllun Hygyrchedd yn cael ei fonitro drwy'r Is-bwyllgor Safonau Llywodraethwyr. Bydd yr ysgol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol i ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Hygyrchedd hwn. Fe all y Cynllun Hygyrchedd gael ei fonitro gan Estyn yn ystod prosesau arolygu mewn perthynas ag Atodlen 10 Deddf Cydraddoldeb 2010.

2) Mae Ysgol y Llys wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd sy'n galluogi mynediad llawn i'r cwricwlwm

sy'n gweld gwerth ac yn cynnwys yr holl ddisgyblion, staff, rhieni ac ymwelwyr waeth beth fo'u hanghenion addysgol, corfforol,

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

synhwyraidd, cymdeithasol, ysbrydol, emosiynol a diwylliannol. Rydym wedi ymrwymo i lynu at egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran anabledd ac i ddatblygu diwylliant o gynhwysiant, cefnogaeth ac ymwybyddiaeth o fewn yr ysgol.

3) Mae Cynllun Hygyrchedd Ysgol y Llys yn dangos sut y bydd mynediad yn cael ei wella ar gyfer disgyblion anabl, staff ac ymwelwyr â'r ysgol o fewn amserlen benodol ac mae'n rhagweld yr angen i wneud addasiadau rhesymol i fodloni eu hanghenion pan fo hynny'n ymarferol.

Mae Cynllun Hygyrchedd Ysgol y Llys yn ymwneud â phrif agweddau'r cwricwlwm, yr amgylchedd ffisegol a gwybodaeth ysgrifenedig:

- Cynyddu mynediad i'r cwricwlwm i ddisgyblion gydag anabledd, gan addasu'r cwricwlwm yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys addysgu a dysgu a chwricwlwm yr ysgol yn ehangach fel cyfranogiad mewn clybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau hamdden a diwylliannol neu ymweliadau ysgol – mae hefyd yn cynnwys darparu offer a chymorth arbenigol neu ychwanegol a all gynorthwyo'r disgyblion hyn i gael mynediad i'r cwricwlwm o fewn amserlen resymol (Os yw ysgol yn methu â gwneud hyn maent yn torri eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).
- Gwella a chynnal mynediad i amgylchedd ffisegol yr ysgol, ychwanegu cyfleusterau arbenigol yn ôl yr angen - mae hyn yn cynnwys gwelliannau i amgylchedd ffisegol yr ysgol a chymorth corfforol i gael mynediad i addysg o fewn amserlen resymol;
- Pan fo angen addasu'r ddarpariaeth o wybodaeth ysgrifenedig i ddisgyblion, staff, rhieni ac ymwelwyr gydag anableddau; gall enghreifftiau gynnwys addasiadau i daflenni, amserlenni, gwerslyfrau a gwybodaeth am yr ysgol a digwyddiadau'r ysgol. Fe ddylai'r wybodaeth fod ar gael mewn amryw o fformatiau a ffefrir o fewn amserlen resymol.

4) Bydd hyfforddiant ar gyfer yr ysgol gyfan yn cydnabod yr angen i barhau i godi ymwybyddiaeth ar gyfer y staff a'r llywodraethwyr ar faterion cydraddoldeb gan gyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

5) Dylid darllen y Cynllun Hygyrchedd hwn ar y cyd â pholisïau, strategaethau a dogfennau yr ysgol a restrir isod:

- Y Polisi Iechyd a Diogelwch
- Y Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Y Polisi Rheoli Anghenion Gofal Iechyd a Meddyginiaethau
- Y Polisi Ymweliadau Addysgol

Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

6) Mae’r Cynllun Hygyrchedd ar gyfer hygyrchedd corfforol yn ymwneud ag Archwiliad Mynediad yr Ysgol, sy’n parhau yn gyfrifoldeb y corff llywodraethu. Efallai nad yw’n ymarferol i fynd i’r afael â’r holl waith yn ystod oes y cynllun hygyrchedd hwn ac felly fe fydd rhai eitemau yn symud ymlaen i gynlluniau dilynol. Fe fydd archwiliad hygyrchedd yn cael ei gwblhau gan yr ysgol cyn diwedd pob cyfnod sy’n berthnasol i’r cynllun hwn er mwyn rhoi gwybodaeth i ddatblygu Cynllun Hygyrchedd newydd ar gyfer y cyfnod sy’n parhau.

7) Bydd Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cynnal pan fo polisïau ysgol yn cael eu hadolygu. Bydd y cylch gorchwyl ar gyfer holl bwyllgorau'r llywodraethwyr yn cynnwys yr angen i ystyried materion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fel sy’n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Arfer Da presennol

Rydym yn casglu gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw anabledd neu gyflwr iechyd yn gynnar yn y broses o gyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr plant sy’n newydd i’r ysgol. I rieni a gofalwyr plant sydd eisoes yn yr ysgol, gofynnwn i rieni roi gwybod i'r ysgol am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth y maent wedi ei darparu.

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

## Amgylchedd Ffisegol

Mae disgyblion anabl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae rhai agweddau o weithgareddau allgyrsiol yn cyflwyno heriau penodol. Er enghraifft amser cinio ac egwyl i ddisgyblion gyda nam cymdeithasol/rhyngweithio, clybiau ar ôl ysgol i ddisgyblion gyda nam corfforol a theithiau ysgol i ddisgyblion gydag anghenion meddygol. Ond mae'r holl addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i gefnogi cyfranogiad mor llawn â phosibl.

## Cwricwlwm

Drwy gynllunio ar gyfer angen unigol, rydym yn anelu i ddarparu ymagwedd mor gynhwysol â sy'n ymarferol bosibl. Mae rhai meysydd o'r cwricwlwm yn cynnig heriau penodol, er enghraifft: Addysg Gorfforol i ddisgyblion gyda nam corfforol, ond caiff yr holl addasiadau rhesymol eu gwneud i gefnogi cyfranogiad mor llawn â phosibl.

Rydym yn ceisio cyngor a chefnogaeth gan y gweithwyr proffesiynol perthnasol er mwyn sicrhau ein bod wedi gwneud addasiadau digonol a rhesymol.

## Gwybodaeth

Caiff ffurfiau gwahanol o gyfathrebu eu darparu wrth i anghenion gael eu nodi er mwyn galluogi'r holl ddisgyblion anabl i fynegi eu safbwyntiau ac i glywed safbwyntiau eraill. Caiff mynediad i wybodaeth ei ddarparu mewn ystod o wahanol fformatiau a byddant ar gael i ddisgyblion anabl, rhieni a staff yn ôl yr angen.

## Archwiliad Mynediad

ENGHRAIFFT: Mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn un adeilad mawr tair llawr. Mae mynediad i bob llawr ar gael drwy lifft pwrpasol, sydd wedi'i gynllunio i sicrhau hygyrchedd llawn a defnydd hawdd i bawb. Mae'r rhan fwyaf o'r mynedfeydd i'r ysgol unai yn fflat neu yn cynnwys ramp ac mae drysau llydan wedi eu gosod ymhob un. Mae'r brif fynedfa yn cynnwys lobi ddiogel ac mae system fewngofnodi electronig wedi ei gosod yma sy'n gwbl

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Tra rydym yn cydnabod y gallai maint safle'r ysgol gyflwyno heriau o bosibl, rydym yn gwneud addasiadau rhesymol wrth i'r angen godi. Nid oes gan yr ysgol leoedd parcio pwrpasol i ymwelwyr, ond mae 2 gofod Anabl yn y maes parcio a 2 gofod Anabl yn y man gollwng wedi eu nodi'n glir. Mae cyfleusterau toiled hygyrch ar gael ar bob llawr ac mae canllaw, teclyn codi a chortyn argyfwng wedi eu gosod yma. Mae gan yr ysgol arwyddion argyfwng mewnol ac mae'r llwybrau dianc wedi eu nodi'n glir. Caiff cynlluniau gwagio personol eu rhoi mewn grym yn ôl y gofyn.

## Rheoli, cyd-drefnu a gweithredu ac adolygu

- Rydym yn ymgynghori gyda gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill pan fo sefyllfaoedd newydd yn ymwneud â disgyblion gydag anableddau yn codi.
- Mae'r Llywodraethwyr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol.
- Rydym yn gweithio'n agos gyda rhieni i ystyried anghenion eu plant.
- Caiff y polisi hwn ei adolygu yn rheolaidd ac/neu wrth i anghenion y plant newid.
- Rydym yn gwneud cysylltiadau gydag ysgolion eraill i rannu arfer orau drwy gyfarfodydd rheolaidd rhwydwaith Cydlynwyr ADY a dulliau eraill o gyfathrebu yn ôl yr angen.

| | |
|---|---|
| **Crewyd ar** | Hydref 2025 |
| **Diweddarwyd ar** | Hydref 2025 |
| **Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol** | Tachwedd 2025 |

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

| | |
|---|---|
| **Adolygir nesaf** | Tachwedd 2026 |
| **Llofnodwyd gan y Cadeirydd a Dyddiad** | |

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

# Cynllun Gweithredu Hygyrchedd Ysgol y Llys

## Amcan 1: I gynyddu’r graddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol

Ein prif amcan yw i leihau a dileu rhwystrau i fynediad i’r cwricwlwm ac i sicrhau cyfranogiad llawn yng nghymuned yr ysgol i ddisgyblion (a darpar ddisgyblion) gydag anabledd, cyflwr meddygol neu anghenion mynediad eraill. Gall darpariaeth gynnwys: cysylltu gydag arbenigwyr, Datblygiad Proffesiynol Parhaus i staff, cwricwlwm gwahaniaethol, adnoddau arbenigol i gefnogi dysgu a mynediad i’r cwricwlwm, ystod o staff cefnogi gan gynnwys cynorthwywyr addysgu wedi eu hyfforddi a threfniadau mynediad mewn grym ar gyfer profi statudol.

| Targedau | Strategaethau | Amserlen | Cyfrifoldebau | Meini Prawf Llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| I gysylltu gyda darparwyr cyn ysgol i baratoi ar gyfer derbyn plant newydd i’r dosbarth Meithrin/Derbyn bob blwyddyn. | Nodi disgyblion a allai fod angen darpariaeth wedi ei haddasu neu ddarpariaeth ychwanegol. | | | Darpariaeth yn ei lle yn barod ar gyfer pan fydd y plentyn/plant yn dechrau'r ysgol. |

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cysylltu gyda sefydliadau addysgol i baratoi ar gyfer derbyn plant newydd sy’n trosglwyddo yng nghanol blwyddyn. | Nodi disgyblion a allai fod angen darpariaeth wedi ei haddasu neu ddarpariaeth ychwanegol. | | | Darpariaeth yn ei lle yn barod ar gyfer pan fydd y plentyn/plant yn dechrau'r ysgol. |
| Adolygu polisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu arfer a gweithdrefn gynhwysol. | Cydymffurfio gyda Deddf Cydraddoldeb 2010. | | | Mae’r holl bolisïau yn adlewyrchu arfer a gweithdrefnau cynhwysol yn glir. |
| Cynnal cysylltiad agos gyda rhieni. | Sicrhau cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng yr ysgol a theuluoedd. | | | Cydweithio eglur e.e. cyfarfodydd rheolaidd, adolygiadau a |

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | chynllunio camau gweithredu. |
| Cynnal cyswllt agos gydag asiantaethau allanol ar gyfer disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol | Sicrhau cydweithio rhwng yr holl staff allweddol. | | | Cydweithio eglur e.e. cyfarfodydd rheolaidd, adolygiadau a chynllunio camau gweithredu. |
| Cynnwys disgyblion gydag anabledd, cyflwr meddygol neu anghenion mynediad eraill mor llawn â phosibl yn y cwricwlwm ehangach gan gynnwys teithiau ac | Creu asesiadau risg personol a chynlluniau mynediad i blant unigol. Cysylltu gydag asiantaethau allanol, gan nodi anghenion hyfforddi a rhoi hyfforddiant ar waith pan fo angen. Sicrhau fod camau gweithredu, gan gynnwys cynlluniau gwagio mewn argyfwng yn glir a bod staff yn gallu eu gweithredu. | | | Tystiolaeth fod ystyriaethau priodol ac addasiadau rhesymol wedi eu gwneud. |

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ymweliadau preswyl yn ogystal â darpariaeth allgyrsiol. | | | | |

## Amcan 2: I wella amgylchedd ffisegol yr ysgol i gynyddu'r graddau y gall disgyblion gydag anabledd, cyflwr meddygol neu anghenion mynediad eraill gael mynediad i addysg

| Targedau | Strategaethau | | Amserlen | Cyfrifoldebau | Meini Prawf Llwyddiant |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol.<br><br>(gweler y Cynllun Gwella Safle) | Bydd yr ysgol yn ystyried anghenion y disgyblion gydag anawsterau corfforol a nam ar y synhwyrau wrth gynllunio a mynd i'r afael â gwelliannau ac unrhyw waith adnewyddu ar y safle yn y dyfodol e.e. gwella mynediad, golau a chynlluniau lliw, arwyddion clir a chyfleusterau a gosodiadau mwy hygyrch. | | | | Tystiolaeth fod ystyriaethau priodol wedi eu cymryd pryd bynnag fo gwelliannau ffisegol i'r ysgol yn cael eu gwneud. |
| Sicrhau fod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i ddisgyblion gydag | Creu asesiadau risg personol a chynlluniau mynediad i ddisgyblion unigol. Cysylltu gydag asiantaethau | | | | Cynhwysiant mor llawn â phosibl i'r holl ddisgyblion. |

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| anabledd, cyflwr meddygol neu anghenion eraill yn ymwneud â mynediad. | allanol, gan nodi anghenion hyfforddi a rhoi hyfforddiant ar waith pan fo angen. Sicrhau fod camau gweithredu, gan gynnwys gweithdrefnau gwagio mewn argyfwng yn glir a bod staff yn gallu eu gweithredu. | | | | Gwagio diogel mewn argyfwng. |

## Amcan 3: I wella darpariaeth gwybodaeth i ddisgyblion, staff, rhieni/gofalwyr ac aelodau eraill o gymuned yr ysgol

| Targedau | Strategaethau | Amserlen | Cyfrifoldebau | Meini Prawf Llwyddiant |
|---|---|---|---|---|

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| I alluogi gwell mynediad i wybodaeth ysgrifenedig ar gyfer disgyblion rhieni/gofalwyr ac ymwelwyr. | Creu a chynnig gwybodaeth mewn fformatiau amgen.<br><br>Trefniadau mynediad yn cael eu hystyried a'u rhoi mewn grym ar gyfer profi statudol. | | | Tystiolaeth fod ystyriaethau priodol ac addasiadau rhesymol wedi eu gwneud. |
| Sicrhau fod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer rhieni/gofalwyr gydag anabledd, cyflwr meddygol neu anghenion mynediad eraill fel y gallant gefnogi addysg eu plentyn yn llawn. | Mabwysiadu ymagwedd ragweithiol i nodi gofynion mynediad rhieni a gwneud addasiadau rhesymol pan fo hynny'n bosibl. | | | Tystiolaeth fod ystyriaethau ac addasiadau rhesymol wedi eu gwneud, fel y gall rhieni gefnogi eu plant yn llawn. |